**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| 1. Llunio datganiad ar y polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd. | Derbyn. Byddwn yn comisiynu ymchwil (gan ddechrau'r broses gaffael ym mis Gorffennaf 2010) i werthuso'r polisïau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd sy'n bodoli eisoes a'r Rhaglen newydd i Adnewyddu'r Economi. Yna, byddwn yn diwygio'r polisi cynllunio ac yn paratoi Nodyn Cyngor Technegol ar "Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy". | **Mehefin 2012**<br><br>Mae'r Ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio Cymru wedi dod i ben. Cafwyd 53 o ymatebion sydd wrthi'n cael eu dadansoddi.<br><br>Daeth y gwaith caffael mewn perthynas â chontract am dystiolaeth i gefnogi Nodyn Cyngor Technegol newydd i ben fis Mehefin a phenodwyd Roger Tym a'i Bartneriaid.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Cyhoeddwyd Rhifyn 5 o'r Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Tachwedd 2012, gan gyflwyno Pennod 7 ddiwygiedig yn gosod polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu economaidd.<br><br>Ymchwil parhaus gan Roger Tym a'i Bartneriaid i ddatblygu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi Nodyn Cyngor Technegol newydd ar Ddatblygu Economaidd. | **Cwblhawyd -** Cyhoeddwyd Pennod 7 ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Tachwedd 2012.<br><br>Drafft terfynol yr adroddiad ymchwil i'w gyhoeddi ym |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | | | mis Chwefror 2013 Ymgynghoriad ar y drafft Nodyn Cyngor Technegol ar Ddatblygu Economaidd – Haf 2013<br><br>Nodyn Cyngor Technegol newydd i'w gyhoeddi Gaeaf 2013 |
| 2. Cyflwyno mesurau i wneud y system gynllunio'n fwy ymatebol i anghenion busnesau: | | Gweler 2a, 2b a 2c | |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| 2a. Gwella cyfathrebu â sefydliadau busnes; | 2a. Derbyn. Yn ystod 2010, byddwn yn ystyried swyddogaeth Fforwm Cynllunio Cymru a'r angen am grŵp busnes newydd. | **Mehefin 2012**<br><br>Bydd Swyddogaeth Fforwm Cynllunio Cymru yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm<br>.<br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod Fforwm Cynllunio Cymru ar 17 Medi gydag aelodau newydd (gan gynnwys cynrychiolwyr Ffederasiwn Busnesau Bach a Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru, yn ogystal â'r cynrychiolydd CBI Cymru presennol); bydd cyfarfodydd yn y dyfodol (y nesaf i'w gynnal ar 17 Ionawr 2013) yn cael eu defnyddio i roi mewnbwn i waith paratoi y Papur Gwyn ar Gynllunio a'r drafft Bil Diwygio Cynllunio i'w cyhoeddi tua diwedd 2013 | **Cwblhawyd –** Cyfarfodydd rheolaidd i'w cael yn chwarterol gyda Fforwm Cynllunio Cymru, i fwydo i mewn i'r Papur Gwyn ar Gynllunio a'r drafft Bil Diwygio Cynllunio. |
| 2b. Canllawiau newydd; | 2b. Derbyn. Adolygu'r canllawiau a chynhyrchu llyfryn newydd erbyn diwedd 2010. | **Mehefin 2012**<br><br>Sefydlodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Microfusnesau ym mis Medi 2011. Amcan y Grŵp oedd cynnig cyngor ac argymhellion i Gymru ar gyfer datblygu a gweithredu Strategaeth ar Ficrofusnesau. Un o'r argymhellion a wnaed oedd cynnig cyngor i ficrofusnesau pan fo rheoliadau'n effeithio ar eu busnesau ee newidiadau i'r gyfraith ym maes iechyd a diogelwch, cyflogaeth, treth a chynllunio. Y siop un stop fydd yn gyfrifol am | |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| | | weithredu'r argymhelliad hwn o fis Ionawr 2013 ymlaen.<br><br>Mae nifer o ganllawiau ar wefan business.wales.gov.uk yn yr adran 'Safle ac Eiddo' ac ar wefan Llywodraeth Cymru'n gyffredinol.<br><br>Mae'r Llinell Gymorth Gwybodaeth Busnes yn gallu helpu gydag ymholiadau cynllunio a'ch cyfeirio at yr Awdurdod Lleol priodol neu'r Porth Cynllunio.<br><br>Mae'r Porth Cynllunio wedi briffio Uned Gwybodaeth Busnes BETS am yr wybodaeth gynllunio sydd ar gael i fusnesau drwy'r Porth Cynllunio.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Enw'r siop un stop fydd 'Busnes Cymru'. Bydd yn weithredol ar 2 Ionawr 2013 ac yn tynnu ynghyd nifer o ffrydiau cymorth presennol Llywodraeth Cymru i BBaCh ledled Cymru, yn ogystal â chyflwyno rhai gwasanaethau newydd yn unol argymhellion yr Adroddiad Meicrofusnesau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012.<br><br>Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu:<br><br>• Cyngor cyffredinol – cynllunio busnes, marchnata, paratoi i ymgeisio am gyllid etc. | Gwasanaeth 'Busnes Cymru i'w gyflwyno gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Bydd yn |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| | | • Cymorth â masnach ryngwladol<br>• Cyngor ar ddefnyddio adnoddau'n effeithlon – cymorth i leihau ynni, gwastraff a dŵr<br>• Cyngor cydraddoldeb a chyflogaeth – cyngor sylfaenol ar ddeddfwriaeth gyflogaeth, arfer gorau, cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Mentora – gwasanaeth mentora gwirfoddolwyr i BBaCh ledled Cymru<br>• Ennill tendrau – cymorth i gwmnïau sydd am dendro yn y sector cyhoeddus, cymorth i gontractwyr mawr roi cyfleoedd i BBaCh ledled Cymru<br>• Cymorth e-fusnes – diagnosteg TGCh a chymorth e-fusnes pellach drwy'r gwasanaeth<br>• Cymorth a chyfeirio – delio ag ymholiadau gwybodaeth gan BBaCh a'u cyfeirio i'r cymorth cywir<br>• Digwyddiadau/gweithdai – digwyddiadau a gweithdai penodol ar nifer o themâu, e.e. cael cyllid busnes, recriwtio, cyfalaf menter etc.<br><br>Bydd yr holl ddarpariaeth wybodaeth yn rhoi cyngor sylfaenol ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth gynllunio a chyfeirio at wasanaethau proffesiynol, gyda'r posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol, e.e. drwy weithdai os bydd Llywodraeth Cymru am hyrwyddo neges â blaenoriaeth neu os oes angen amlwg gan fusnesau. Caiff adborth ac awgrymiadau'u gwerthuso'n barhaus i bwyso a mesur anghenion busnesau. | weithredol erbyn 2 Ionawr 2013. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| 2c. Ystyried rhoi statws ymgynghori ffurfiol neu anffurfiol i sefydliadau busnes yn y broses ymgeisio; | 2c. Derbyn. Byddwn yn cynnal adolygiad o ymgyngoreion statudol ac anstatudol fel y nodir yn yr ymateb i argymhelliad 7. | **Gweler argymhelliad 7** | |
| 2d. Integreiddio anghenion BBaCh yn well mewn polisi cynllunio. | 2d. Derbyn. Yn dilyn cwblhau'r ymchwil sy'n gysylltiedig ag argymhelliad 1, byddwn yn llunio pecyn adnoddau i helpu | **2d – Mehefin 2012**<br><br>Gweler Argymhelliad 1 sy'n ymwneud â'r astudiaeth ymchwil 'Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy'.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Cyhoeddwyd argraffiad 5 PCC ym mis Tachwedd 2012, gyda Phennod 7 wedi'i | Drafft terfynol |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| | awdurdodau cynllunio lleol i ystyried buddiannau datblygu economaidd cynaliadwy wrth lunio cynlluniau a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Yn rhan o'r ymchwil, byddwn yn gwerthuso cyfranogiad y gymuned fusnes yn y broses o ddatblygu polisi cynllunio yn genedlaethol ac yn lleol ac yn nodi meysydd i'w gwella. | diwygio i amlinellu polisi newydd Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd. Mae'r polisi newydd yn helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried materion datblygu economaidd cynaliadwy wrth baratoi cynlluniau a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.<br><br>Er mwyn helpu i roi'r polisi economaidd ym Mhennod 7 PCC ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi Nodyn Cyngor Technegol ar Ddatblygu Economaidd (gweler 1. uchod). Cam cyntaf y broses hon yw creu sylfaen dystiolaeth i lywio'r TAN, sy'n cael ei datblygu drwy ymchwil gan Roger Tym a'i Bartneriaid.<br><br>Mae'r gwaith ymgysylltu gyda'r gymuned fusnes wedi digwydd drwy'r Ymchwil Cynllunio ar gyfer Adnewyddu'r Economi cychwynnol a pharatoi Pennod 7. Flwyddyn nesaf, bydd cyfle pellach i ymgysylltu wrth baratoi ac ymgynghori ar ddrafft y TAN Datblygu Economaidd. | yr adroddiad ymchwil i lywio TAN newydd i'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2013<br><br>TAN drafft i'w baratoi erbyn haf 2013<br><br>TAN newydd i'w gyhoeddi yn ystod Gaeaf 2012/2013. |
| | | | |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| 3. Egluro'r gofynion ar gyfer y Datganiadau Dylunio a Mynediad. | Derbyn. Byddwn yn anfon llythyr eglurhaol at Brif Swyddogion Cynllunio ac eraill i esbonio priodoldeb y Datganiadau ym mis Gorffennaf 2010. | Anfonodd y Prif Gynllunydd lythyr Egluro Polisi CL-03-10 'Datganiadau Dylunio a Mynediad' at y Prif Swyddogion Cynllunio a chyrff eraill sydd â diddordeb ar 31 Awst 2010. | **Wedi'i bodloni.** |
| 4. Gwella'r modd y datblygir canllawiau cynllunio newydd. | Derbyn. Mae rhanddeiliaid allweddol eisoes yn cymryd rhan yn y gwaith ond byddwn yn adolygu prosesau | **Mehefin 2012**<br><br>Mae'n rhaid ystyried yr asesiad o ymarferoldeb yng nghyd-destun yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â datganoli'r Rheoliadau Adeiladu.<br><br>**Rhagfyr 2012** | Asesu mentrau polisi Llywodraeth Cymru i bennu'r camau a gymerir i fwrw ymlaen â'r |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | ymgysylltu â busnesau yn rhan o Argymhelliad 2.<br><br>Yn ystod 2011, byddwn yn ystyried "prawf effaith" er mwyn asesu goblygiadau polisi newydd yn llawn. | Mae'r ymgynghoriad ar ddatganoli rheoliadau adeiladu wedi dod i ben. Mae'r effeithiau ar ymarferoldeb yn elfen bwysig yn y broses ymgynghori a bydd angen ystyried hyn yn y penderfyniadau polisi terfynol. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi a byddant yn cael eu hystyried gan yr Uned Adeiladu yn Llywodraeth Cymru. | canlyniadau anfwriadol i'r system gynllunio gan gynnal gynnal trafodaethau gyda chydweithwyr ac ar draws portffolios Gweinidogol – mae'r trafodaethau yn parhau a chymerir camau yn ystod 2013. |
| 5. Cyfyngu ar ganllawiau newydd, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â'r Argymhellion | Derbyn yn rhannol. Caiff canllawiau newydd eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. | **Mehefin 2012**<br><br>Cyhoeddwyd y pedwerydd argraffiad ym mis Chwefror 2011.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Cyhoeddwyd argraffiad 5 PCC ym mis Tachwedd 2012, gan gyflwyno Pennod 7 | **Wedi'i** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| a'r meini prawf a chanllawiau ar gyfer y broses galw i mewn. | Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i chydgrynhoi o Bolisi Cynllunio Cymru ym Mehefin 2010 i ymgorffori holl Ddatganiadau Cynllunio Interim y Gweinidog a pholisïau sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar y broses galw i mewn ym mis Mai 2010. | ddiwygiedig yn gosod polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu economaidd<br><br>Mae'r canllawiau ar y broses galw i mewn yn cael eu hadolygu'n barhaus a chyhoeddwyd nodyn esboniadol diwygiedig ym mis Gorffennaf 2010. | **bodloni**. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| | | **Mehefin 2012**<br><br>Mae Cyfarwyddyd newydd wedi'i baratoi a fydd yn dod i rym ddiwedd mis Gorffennaf 2012. Bydd y Cyfarwyddyd yn rhan o gylchlythyr cynllunio newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei gyhoeddi yr un pryd.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Cyhoeddwyd Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 07/2012 'Y Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012' ar 30 Gorffennaf 2012. | **Wedi'i bodloni.** |
| 6. Llunio polisi a chanllawiau newydd ar reoli datblygiadau mewn modd cadarnhaol, i'w mabwysiadau | Derbyn. Byddwn yn adolygu'r polisi rheoli datblygu cyfredol ac yn ystyried diwygiadau a chanllawiau arfer gorau newydd er mwyn ystyried y | Mae'r ymatebion i'r materion a nodir yn fersiwn ddrafft TAN 17 "Cynllunio a Rheoli Datblygu" wedi'u dadansoddi ac mae'r ymatebion wedi'u cynnwys fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer paratoi papurau ymgynghori ar feysydd rheoli datblygiadau.<br><br>**Mehefin 2012**<br><br>Yn parhau. | Paratoi arfer gorau sy'n ystyried yr holl welliannau ym maes rheoli datblygiadau. Gwaith i gychwyn yn yr Haf 2013. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| gan yr holl ymgeiswyr, yr awdurdodau cynllunio lleol, ymgyngoreion statudol ac anstatudol a Llywodraeth Cymru. | newidiadau ym maes rheoli datblygu sy'n cael eu dwyn ymlaen. Cyhoeddir y canllawiau newydd yn 2011, gyda dylanwad gan ymgynghoriadau cyhoeddus. | **Rhagfyr 2012**<br><br>Yn parhau. | |
| 7. Adolygu trefniadau ymgynghori statudol ac anstatudol. | Derbyn. _Cam 1_: Cyhoeddi papur ymgynghori i bennu'r trefniadau cyfredol erbyn mis Gorffennaf 2010.<br><br>_Cam 2_: Adolygu'r modd y | **Mehefin 2012** | **Wedi'i bodloni.** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | gweithredir swyddogaeth yr ymgyngoreion statudol ac anstatudol o ran ystyried gwahanol fathau o geisiadau cynllunio. | Mae'r gwaith cwmpasu o dan gam 2 yn parhau.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Trafodwyd rôl yr ymgyngoreion statudol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol', ac argymhellwyd fod y Papur Gwyn Cynllunio sydd ar y gweill a'r Bil Diwygio Cynllunio drafft (i'w gyhoeddi tua diwedd 2013) yn datblygu mesurau i wella'r ffordd y mae ymgyngoreion statudol yn gweithio gyda'r system gynllunio. Mae modd bwrw ymlaen â mesurau nad ydynt angen deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y mesurau sydd i'w datblygu yn y Bil drafft a'r hyn y gellir ei ddatblygu drwy is-ddeddfwriaeth. | Papur Gwyn a Bil Diwygio Cynllunio drafft i'w cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus tua diwedd 2013 – ymgynghoriad ar is-fesurau i ddilyn. |
| 8. Llunio canllawiau arfer gorau ar y dulliau sefydliadol o reoli datblygu, gan gynnwys mesurau perfformiad sy'n seiliedig ar ansawdd a | Derbyn, yn rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag Argymhelliad 6. | **Gweler Argymhelliad 6** | |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| boddhad ar gyfer y canlyniadau sydd i'w cyflawni. | | | |
| 9. Llunio canllawiau arfer gorau ar drefniadaeth pwyllgorau cynllunio. | Derbyn. Byddwn yn adolygu'r canllawiau cyfredol yn rhan o'r gwaith ar Argymhelliad 6. | Cynhelir adolygiad o'r canllawiau cyfredol er mwyn datblygu canllaw arfer gorau ar gyfer y system rheoli datblygu – **Gweler Argymhelliad 6**.<br><br>**Mehefin 2012**<br><br>Cyhoeddwyd canllaw CLILC i hyfforddi aelodau ynghylch cynllunio er mwyn paratoi ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol fis Mai 2012. | Datblygu Canllaw Arfer gorau gan ystyried yr holl welliannau o ran rheoli datblygu a wnaed 2012-2013<br><br>Cyhoeddi canllaw CLILC i hyfforddi aelodau ynghylch cynllunio – **Wedi'i** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | | **Rhagfyr 2012**<br><br>Yn yr adroddiad [‘Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol’]() a gyhoeddwyd yn ddiweddar, cafwyd argymhelliad y dylid comisiynu corff annibynnol i gynnal astudiaeth o weithdrefn Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru i weld a oes cysylltiad rhwng effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a maint pwyllgorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI) i gomisiynu ymchwil i strwythur a threfn pwyllgorau cynllunio awdurdodau lleol – gwaith i'w gomisiynu ym mis Ionawr 2013. Derbyniodd RTPI y comisiwn ac maent wrthi'n sefydlu grŵp o arbenigwyr technegol i oruchwylio'r astudiaeth. | **bodloni.**<br><br>Adrodd ar ganfyddiadau'r ymchwil erbyn Mehefin 2013.<br><br>Cynigion i'w hamlinellu yn y Papur Gwyn a'r Bil Diwygio Cynllunio i'w gyhoeddi ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn rhan olaf 2013 |
| 10. Ymestyn yr hawliau datblygu a ganiateir. | A (i) Daeth hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer microgynhyrchu | | **A (i). Wedi'i bodloni.** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | anheddau domestig i rym ym mis Medi 2009. | A (ii) – Materion technegol y DU wedi'u datrys gan gyflwyno mesurau llacio pellach ar gyfer hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer microgynhyrchu domestig.<br><br>Mae Offeryn Statudol drafft sy'n cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir eraill ar gyfer deiliaid tai wedi'i baratoi a bydd yr Undeb Ewropeaidd yn cael gwybod amdano ym mis Ionawr 2012 yn unol â'r Gyfarwyddeb 98/34/EC fel y'i diwygiwyd gan y Gyfarwyddeb 98/48/EC.<br><br>Mae'r Offeryn Statudol wedi'i lofnodi gan y Gweinidog a'i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a daeth i rym 18 Mehefin 2012 | **A (ii).<br>Wedi'i bodloni** |
| | B. Bu'r hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir ar gyfer microgynhyrchu adeiladau | **B – Mehefin 2012**<br><br>Cafwyd cymeradwyaeth Gweinidogol i ddrafftio'r Offeryn Statudol yn ffurfiol fis Mai 2012. Mae'r Offeryn Statudol ar gyfer Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer microgynhyrchu adeiladau annomestig wrthi'n cael ei ddrafftio. | **B.<br>Wedi'i bodloni** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | annomestig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 3 Gorffennaf 2010. | **Rhagfyr 2012**<br><br>Cafodd yr Offeryn Statudol ei lofnodi ym mis Medi 2012 ar gyfer y diwygiadau canlynol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) i roi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer offer microgynhyrchu adeiladau annomestig, ac i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddiwygio'r disgrifiad o ddatblygu a ganiateir i gynnwys offer microgynhyrchu annomestig:<br><br>Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2012:<br><br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2012<br><br>Mae llyfryn canllawiau: *'Generating your Own Energy, Planning Regulations for Microgeneration: Non-domestic'* hefyd wedi cael ei gyhoeddi | |
| | C. Byddwn yn ymgynghori ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau | **Rhagfyr 2012**<br><br>Rydym wedi gorffen ystyried y materion technegol. Mae'r gwaith o adolygu'r Gorchymyn Diwygio drafft yn parhau gan ddefnyddio ymatebion yr ymgynghoriad a'r gwaith technegol ychwanegol a wnaed. Mae'r gwaith hefyd yn parhau o ran | **C.** Is-ddeddfwriaeth, canllawiau technegol, canllaw i |

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| | domestig yn ystod tymor yr hydref 2010.<br><br>. | diwygio'r canllawiau technegol a'r asesiad effaith rheoleiddiol i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Gorchymyn Diwygio. | ddeiliaid tai a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'w diwygio ar gyfer cymeradwyaeth Gweinidogol.<br><br>Gorchymyn i'w wneud yn Ionawr 2013<br><br>Canllawiau technegol a chanllawiau i ddeiliaid tai i'w cyhoeddi yn Chwefror 2013<br><br>Rheoliadau i ddod i rym erbyn Haf 2013 (er mwyn i ddeiliaid tai ac Awdurdod Cynllunio Lleol |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | | | ymgyfarwyddo â'r rheoliadau). |
| | D. Byddwn yn ymgynghori ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau annomestig yn ystod tymor yr hydref 2010. | **D – Mehefin 2012**<br><br>Paratoi papur ymgynghori<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Cafodd y papur ymgynghori a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu cyhoeddi i gael sylwadau, Hydref 2012. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 11 Ionawr 2013. | **D.** Angen dadansoddi'r ymatebion. Rheoliadau diwygiedig, a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'w cyflwyno yn haf 2013 yn dilyn cymeradwyaeth Gweinidogol. |
| | | **E** - Yn ogystal, roedd ymgynghoriad ar gyflwyno Gorchmynion Datblygu Lleol ym mis Gorffennaf 2010 a oedd yn gofyn am ymatebion erbyn mis Hydref 2010.<br><br>Daeth rheoliadau i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i wneud Gorchmynion | **E. Wedi'i bodloni** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | | Datblygu Lleol i rym ar 30 Ebrill 2012.<br><br>Cyhoeddwyd y canllawiau canlynol ar 30 Ebrill 2012 hefyd:<br><br>- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/2012: Canllawiau ar ddefnyddio gorchmynion datblygu lleol<br>- Canllawiau ar ddefnyddio gorchmynion datblygu lleol | |
| 11. Mabwysiadu ymagwedd ymarferol tuag at fân newidiadau i geisiadau cynllunio. | Derbyn. Byddwn yn cynnwys hyn mewn papur ymgynghori a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn galendr hon. | **Mehefin 2012**<br><br>Papur ymgynghori gan gynnwys canllawiau drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft wrthi'n cael eu cwblhau.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Gan ystyried argymhelliad y Grŵp Cynghori Annibynnol mewn perthynas â newidiadau ansylweddol a mân newidiadau i ganiatadau cynllunio presennol, dylid symud y gwelliannau a geisir ymlaen ar wahân fel a ganlyn:<br><br>**<u>Newidiadau Ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio Presennol</u>**<br><br>Cafodd papur ymgynghori ei gyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2012 i geisio barn ar gynigion i gyflwyno gweithdrefn statudol – drwy ddefnyddio Adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA 1990) yng Nghymru – i gymeradwyo newidiadau o'r | **<u>Newidiadau Ansylweddol</u>**<br><br>Cyhoeddwyd papur |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| Crynodeb o Argymhelliad Rhif: | Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010) | Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers: | Carreg filltir i'w bodloni |
|---|---|---|---|
| | | fath.<br><br>**<u>Mân newidiadau i Ganiatâd Cynllunio Presennol</u>**<br><br>Fel y mae argymhellion y Grŵp Cynghori Annibynnol yn eu hannog, caiff pŵer penodol ar gyfer gwneud a dilysu mân newidiadau ei gynnig i'w gynnwys yn y Bil Diwygio Cynllunio sydd ar y gweill. Bydd cynigion manwl yn rhan o'r papur gwyn a'r Bil Diwygio Cynllunio sydd i'w cyhoeddi ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd erbyn diwedd 2013. | ymgynghori ar 10 Rhagfyr 2012.<br><br>**<u>Mân ddiwygiadau</u>**<br><br>Cynigion manwl yn rhan o'r Papur Gwyn a'r Bil Diwygio Cynllunio drafft i'w cyhoeddi ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd erbyn diwedd 2013. |
| 12. Llunio canllawiau arfer gorau ar y trafodaethau rhagarweiniol a gynhelir cyn gwneud | Derbyn. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn ystod 2010 ar y cyd â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru. | Cyhoeddwyd: Canllaw Arfer: gwireddu potensial trafodaethau cyn gwneud ceisiadau cynllunio fis Mai 2012. | **Wedi'i bodloni** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| ceisiadau. | | | |
| 13. Adolygu'r trefniadau ar gyfer dilysu ceisiadau cynllunio. | Derbyn. Byddwn yn cyhoeddi pecyn ymgynghori, gan gynnwys cylchlythyr drafft a chanllawiau drafft, ym mis Gorffennaf 2010. | Daeth y rheoliadau sy'n nodi'r gofynion dilysu ar gyfer ceisiadau cynllunio i rym ar 30 Ebrill 2012.<br><br>Cyhoeddwyd y canllawiau canlynol ar 30 Ebrill 2012 hefyd i ategu'r newidiadau i'r rheoliadau:<br>- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2012: Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ddefnyddio'r ffurflen cais cynllunio safonol ('1app') a dilysu ceisiadau.<br><br>- Canllawiau ar ddefnyddio'r ffurflen cais cynllunio safonol ('1app') a dilysu ceisiadau | **Wedi'i bodloni** |
| 14. Cynyddu'r defnydd o wasanaethau cynllunio electronig. | Derbyn. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda'r Porth Cynllunio i gynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau cynllunio electronig – mae | **Mehefin 2012**<br><br>Gwaith parhaus gyda'r Porth Cynllunio, gan gynnwys gwell cynnwys i Gymru a chynyddu nifer y ceisiadau a wneir ar-lein (35% yw cyfartaledd Cymru ar hyn o bryd).<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Gwaith yn parhau gyda'r Porth Cynllunio, diweddaru cynnwys Cymru ar y Porth, a chynyddu nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynir ar-lein (40% yw'r cyfartaledd | Gwaith yn parhau gyda'r Porthol Cynllunio i gynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| | dros 20% o'r ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ar-lein. Mae'r Ganolfan e-ymgynghori'n cael ei phrofi gan nifer o ymgyngoreion Ipas ac ymgyngoreion statudol. | presennol ar gyfer ceisiadau a gyflwynir ar-lein yng Nghymru) | cynllunio electronig |
| 15. Rhannu Arbenigedd – creu panel o ymgynghorwyr i'r awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio pan na fydd arbenigedd | Derbyn yn rhannol. Byddwn yn ysgrifennu at bob Prif Swyddog Cynllunio ym mis Gorffennaf 2010 gan nodi pa gymorth technegol y byddwn yn ei | Rhaglen beilot wedi dod i ben a'r grant wedi'i ymgorffori yng Nghyllideb Cymhelliannau Cynllunio ar gyfer 2011/12 a 2012/13. Gwahoddir ceisiadau ar gyfer cymorth cyllid ar gyfer 2012/13 gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.<br><br>**Rhagfyr 2012**<br><br>Mae'r cyllid hwn ar gael drwy'r Gronfa Gwella Cynllunio ac mae'n seiliedig ar alw. Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi cyflwyno cynigion am gyllid i'w galluogi i gael | **Wedi'i bodloni** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" (cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2010)**

**CYNLLUN CYFLAWNI: DIWEDDARIAD (Rhagfyr 2012)**

| **Crynodeb o Argymhelliad Rhif:** | **Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth (Mehefin 2010)** | **Carreg filltir bwysig wedi'i bodloni ers:** | **Carreg filltir i'w bodloni** |
|---|---|---|---|
| lleol ar gael, a'r awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio ar feysydd megis seilwaith, mwynau, gwastraff, adnoddau naturiol a'r sectorau ynni. | gaffael i'w helpu i brosesu ceisiadau cynllunio yn y sector gwastraff a'r sector ynni adnewyddadwy sydd wedi'u nodi'n flaenoriaethau cenedlaethol. | cyngor arbenigol ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy, mwynau, a datblygiadau trin gwastraff ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno. | |
| 16.Adolygu'r canllawiau ar y defnydd o Amodau Cynllunio. | Derbyn. Byddwn yn dechrau adolygu amodau yn 2011. | **Rhagfyr 2011**<br><br>Papur ymgynghori sy'n cynnwys cylchlythyr drafft a rhestr o amodau'r model yn cael ei baratoi. | Papur ymgynghori i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2013 |